

Cyllid a Thollau EM

Cynllun Iaith Gymraeg 2008 - 2012

1. Rhagarweiniad
2. Pwy ydym a'r hyn a wnawn
3. Cynllunio a chyflawni'r gwasanaeth
 - Polisiâu, deddfwriaeth a mentrau
 - Cyflawni gwasanaethau
 - Gwasanaethau a ymgwymerir ar ein rhan gan drydydd parti
 - Safonau ansawdd
4. Delio ag aelodau'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg
 - Gohebiaeth
 - Cyfathrebu ar y ffôn
 - Cyfarfodydd cyhoeddus yng Nghymru
 - Cyfarfodydd eraill a gynhelir gyda'r cyhoedd yng Nghymru
 - Ymdrin â'r cyhoedd yng Nghymru trwy ddulliau eraill
5. Ein hwyneb cyhoeddus yng Nghymru
 - Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebu
 - Cyhoeddiadau
 - Gwefannau
 - Ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiol
 - Hunaniaeth gorfforaethol yng Nghymru
 - Arwyddion yng Nghymru
 - Hysbysiadau swyddogol, cyhoeddiadau a hysbysiadau recriwtio staff
 - Datganiadau i'r wasg a chysylltiadau â'r cyfryngau
6. Gweithredu'r cynllun
 - Staffio a Recriwtio
 - Hyfforddiant Iaith
 - Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu
 - Trefniadau mewnol
 - Monitro
 - Adolygu a diwygio'r cynllun
 - Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwella

1. Rhagarweiniad

I gydymffurfio â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993, mae Cyllid a Thollau EM (CThEM) yn mabwysiadu'r egwyddor fod yr iaith Gymraeg a'r iaith Saesneg yn cael eu trin ar sail gyfartal wrth gynnal busnes a chyfathrebiad cyhoeddus yng Nghymru cyn belled a bod hynny'n briodol yn yr amgylchiadau yn ogystal â bod yn rhesymol ymarferol.

Mae'r cynllun yn gosod allan sut y bwriader CThEM cyflawni ei ymrwymiad i'w cwsmer a pharatowyd o dan Adran 21 (3) y Ddeddf - ac yn unol â chanllawiau a gyhoeddwyd gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan Adran 9 y Ddeddf. Derbyniodd y cynllun ardystiad llawn Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar 31 Mawrth 2008.

Yn y cynllun hwn mae'r term cyhoedd yn golygu, unigolion, personau neu gyrff corfforaethol cyfreithiol. Mae'n cynnwys y cyhoedd yn ei gyfanrwydd, neu gyfran o'r cyhoedd, yn ogystal ag aelodau unigol o'r cyhoedd. Mae'r term yn cynnwys cyrff gwirfoddol ac elusennau. Cynhwysir cyfarwyddwyr ac eraill, sy'n cynrychioli cwmnïau cyfyngedig, o fewn y term 'cyhoedd'.

Mae'r mesuriadau yn y cynllun hwn gydag awdurdod, cefnogaeth a chymeradwyaeth llawn ein sefydliad.

2. Pwy ydym a'r hyn a wnawn

Mae Cyllid a Thollau EM (CThEM) yn gyfrifol am gasglu'r rhan helaethaf o drethi refeniw yn ogystal â thalu credydau treth a budd-dal plant, ac atgyfnerthu ffiniau'r Deyrnas Unedig.

Rydym yn rheoli:

- Trethi Incwm, Corfforaeth, Enillion Cyfalaf, Etifeddiant, Premiwm Yswiriant, Stamp, Tir a Chyllid Petrolïwm
- Trethi Amgylcheddol, Newid Hinsawdd ac Ardoll Agregiadau a Threth Dirlenwi
- TAW
- Tolldaliadau
- Tollau Ecseis
- Amddiffyn Ffiniau
- Yswiriant Gwladol
- Credydau Treth
- Budd-dal Plant a Chronfa Ymddiriedolaeth Plant
- Gorfodi'r Isafswm Cyflog Cenedlaethol
- Adennill ad-daliadau Benthyciadau Myfyrwyr

Mae uchelgais CThEM yn rhoi cwsmeriaid wrth graidd popeth yr ydym yn ei wneud ac rydym yn ymroddedig i'w gwneud cyn hawsed â phosibl i gwsmeriaid gael pethau'n iawn. Ein nod yw gweinyddu systemau rheoli treth a thollau yn deg ac yn effeithlon trwy alluogi cwsmeriaid i gydymffurfio â'u holl ymrwymadau a derbyn credydau treth a hawliadau eraill.

Golyga natur ein sefydliad fod swyddfeydd y tu allan i Gymru yn delio â nifer o'n cwsmeriaid yng Nghymru a chaiff ffurflenni a hysbysiadau a gynhrychir gan gyfrifiaduron eu hanfon o fannau canolog y busnes ar draws y DU. Ein gwefannau yw: www.hmrc.gov.uk a www.businesslink.gov.uk

3. Cynllunio a chyflawni'r gwasanaeth

3.1 Polisïau, deddfwriaeth a mentrau

3.1.1 Bydd ein polisïau, ein mentrau a'n gwasanaethau yn gyson â'r cynllun hwn. Byddant yn ategu'r defnydd o'r Gymraeg a byddant, pryd bynnag y mae hynny'n bosibl, yn cynorthwyo'r cyhoedd yng Nghymru i ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u bywydau o ddydd i ddydd.

3.1.2 Fe wneir deddfwriaeth CThEM mewn Saesneg yn y Senedd. Er hynny, ble mae yna ddarpariaeth statudol mewn Saesneg yn cael ei gyfieithu i Gymraeg mewn cyhoeddiad CThEM, ystyrir y cyfieithiad Cymraeg wrth ddatrys unrhyw ansicrwydd ynglŷn â'r fersiwn Saesneg.

3.1.3 Pan fyddwn yn cyfrannu at ddatblygu neu gyflawni polisïau, mentrau, gwasanaethau neu ddeddfwriaeth newydd a arweinir gan sefydliadau eraill, byddwn yn gwneud hynny mewn modd sy'n gyson â'r cynllun hwn.

3.2 Cyflawni gwasanaethau

3.2.1 Bydd y cynllun hwn yn gymwys ar gyfer pob uned fusnes o CThEM, pa le bynnag y'i lleolir, sy'n darparu gwasanaethau i gwsmeriaid yng Nghymru. Bydd pob uned fusnes yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau yn Gymraeg yn unol â'r cynllun hwn.

3.2.2 Bydd y cynllun hwn yn gymwys i businesslink.gov.uk gan fod CThEM yn geidwaid y rhaglen business.gov sy'n ei ddarparu. Businesslink.gov.uk fydd yn gyfrifol am ddarparu'i wasanaethau yn yr iaith Gymraeg yn unol â'r cynllun ac yn benodol gydag adran 5.3.

3.2.3 Pan fydd unrhyw gwsmer yng Nghymru yn nodi, naill ai yn ysgrifenedig neu ar lafar, eu bod yn dymuno delio â ni yn Gymraeg, byddwn yn darparu ein gwasanaethau iddynt yn Gymraeg pan fo hynny'n ymarferol bosibl.

3.2.4 Byddwn yn gadael i'r cyhoedd wybod fod ein gwasanaethau ar gael yn Gymraeg.

3.3 Gwasanaethau a ymgwymerir ar ein rhan gan drydydd parti

3.3.1 Bydd unrhyw gytundebau neu drefniadau a wnawn gyda thrydydd parti yn gyson â'r rhannau perthnasol o'r cynllun hwn, pan fydd y cytundebau neu'r trefniadau hynny mewn perthynas â darparu gwasanaeth i'r cyhoedd yng Nghymru.

3.4 Safonau ansawdd

3.4.1 Cymhwysir holl safonau cwsmer yr adran yn gyflawn i'r gwasanaethau a ddarperir yn Gymraeg, fel y maent i'r gwasanaethau a ddarperir yn Saesneg.

4. Delio ag aelodau'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru

4.1 Gohebiaeth

- 4.1.1 Pan fydd rhywun yn ysgrifennu atom yn Gymraeg fe fyddwn yn sicrhau bod yr ymateb yn yr un iaith, os oes angen ymateb.
- 4.1.2 Mae ein targed amser ar gyfer ymateb i lythyrau yn Gymraeg yn union yr un fath ac ar gyfer ymateb yn Saesneg.
- 4.1.3 Pan fyddwn yn anfon gohebiaeth safonol neu ar ffurf cylchlythyr i nifer o gwsmeriaid yng Nghymru, gwneir hynny yn ddwyieithog lle mae'n addas.
- 4.1.4 Os bydd rhaid cyhoeddi fersiynau Cymraeg a Saesneg o unrhyw ohebiaeth ar wahân, ein trefn arferol fydd sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd.
- 4.1.5 Bydd deunydd a amgaeir gyda llythyrau dwyieithog hefyd yn ddwyieithog, pan fyddant ar gael.
- 4.1.6 Bydd deunydd a amgaeir gyda llythyrau Cymraeg yn Gymraeg hefyd neu'n ddwyieithog, pan fyddant ar gael.
- 4.1.7 Byddwn yn nodi dewis iaith y rhai hynny sy'n dymuno gohebu â ni yn Gymraeg.

4.2 Cyfathrebu ar y ffôn

- 4.2.1 Mae natur amrywiol ein busnes a'n lleoliadau yn golygu nad yw bob tro'n bosibl darparu ymateb diymdroi yn Gymraeg. I'n cynorthwyo i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl, fe ofynnwn i alwyr ffonio'r rhifau canlynol i gael gwasanaeth Cymraeg:
 - 0845 302 1489
Ar gyfer Treth Incwm, Cyfraniadau Yswiriant Gwladol, Credydau Treth, Budd-daliadau Plant a Chronfa Ymddiriedolaeth Plant, Cynllun y Diwydiant Adeiladu
 - 0845 010 0300
Ar gyfer TAW, Materion Tollau ac Ecseis
- 4.2.2 Mewn swyddfeydd yng Nghymru lle nad oes siaradwyr Cymraeg ar gael, ein trefn arferol yw trosglwyddo'r alwad i gydweithiwr a leolir rhywle arall sy'n medru'r Gymraeg ac yn gymwys i ddelio â'r ymholiad. Os nad oes siaradwr Cymraeg sy'n gymwys i ddelio â'r alwad ar gael, rhoddir dewis i'r galwr fel y bo'n briodol, sef bod siaradwr Cymraeg yn eu ffonio'n ôl cyn gynted â phosibl neu barhau gyda'r alwad yn Saesneg, neu gyflwyno eu hymholiad drwy lythyr neu e-bost.

4.3 Cyfarfodydd Cyhoeddus yng Nghymru

- 4.3.1 Ein trefn arferol mewn unrhyw gyfarfod cyhoeddus a gynhelir gan CThEM yng Nghymru yw hwyluso'r defnydd o Gymraeg pan fo angen. Pan fyddwn yn trefnu seminarau, cyrsiau hyfforddi neu ddigwyddiadau tebyg i gwsmeriaid yng Nghymru, fe fyddwn yn asesu'r angen i'w darparu yn Gymraeg.
- 4.3.2 Pan fyddwn yn trefnu cyfarfodydd cyhoeddus neu seminarau yng Nghymru byddwn:

- Yn anfon gwahoddiadau dwyieithog yn hysbysu'r cyhoedd bod gwasanaeth Cymraeg ar gael
- Yn darparu taflenni a deunyddiau ysgrifenedig eraill yn ddwyieithog neu'n uniaith Gymraeg pan yn ymarferol.
- Yn cynhyrchu fersiynau Cymraeg o unrhyw dapiau fideo neu dapiau sain.

4.3.3 Byddwn yn anelu i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg gyda chymwysterau addas yn mynychu cyfarfodydd cyhoeddus, yn ôl y galw.

4.4 Cyfarfodydd eraill a gynhelir gyda'r cyhoedd yng Nghymru.

4.4.1 Pan fyddwn yn mynychu cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda'r cyhoedd, byddwn yn ceisio darganfod eu dewis iaith cyn gynted â bo modd, ac yn anelu i sicrhau bod aelod o staff gyda chymwysterau addas yn delio â'r rheini sy'n dewis siarad Cymraeg.

4.4.2 Os na fydd siaradwr Cymraeg gyda chymwysterau addas ar gael, byddwn yn rhoi dewis, sef parhau gyda'r cyfarfod yn Saesneg neu ddelio â'r mater yn Gymraeg trwy ohebiaeth.

4.5 Ymdrin â'r cyhoedd yng Nghymru trwy ddulliau eraill

4.5.1 Pan fyddwn yn ymgymryd ag arolygon gyda'r cyhoedd, ein trefn arferol fydd i sicrhau bod holl agwedd o gyfathrebiad gyda'r cyhoedd yn ddwyieithog lle mae'n rhesymol ymarferol.

4.5.2 Pryd bynnag y mae'n ymarferol, gall cwsmeriaid ymateb i'r arolwg yn Gymraeg neu'n Saesneg.

5. Ein hwyneb cyhoeddus yng Nghymru

5.1 Ymgyrchoedd cyhoeddusrwydd, arddangosfeydd a hysbysebu

5.1.1 Ein trefn arferol yw cyhoeddi'r holl ddeunydd a ddefnyddiwn yng Nghymru ar gyfer cyhoeddusrwydd, gwybodaeth gyhoeddus, arddangosfeydd a hysbysebu naill ai ar ffurf ddwyieithog, neu ar ffurf fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os bydd rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân, bydd y ddau fersiwn yn gydradd o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd - bydd y ddau fersiwn ar gael ar yr un pryd ac yn gydradd o ran hygyrchedd.

5.1.2 Bydd pob hysbyseb a gyhoeddir mewn papur newydd (neu ddeunydd tebyg) Saesneg ei iaith a ddosberthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru (ac eithrio papurau newydd sy'n cael eu dosbarthu ledled y DU), yn ddwyieithog neu mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (gyda'r ddau fersiwn yn ymddangos ar yr un pryd), ac yn gydradd o ran maint, amlygrwydd ac ansawdd).

5.1.3 Mewn cyhoeddiadau Cymraeg eu hiaith, bydd hysbysebion yn ymddangos yn Gymraeg yn unig

- 5.1.4 Cynhelir hysbysebion teledu, sinema a radio yn Gymraeg a Saesneg, pan fo hynny'n bosibl. Bydd ymgyrchoedd teledu sy'n ymddangos ar S4C yn ystod oriau darlledu rhaglenni Cymraeg yn Gymraeg. Bydd ymgyrchoedd radio a ddarllidir ar neu yn ystod rhaglenni Cymraeg ar orsafoedd radio masnachol yn Gymraeg.
- 5.1.5 Pan fyddwn yn darparu staff ar gyfer stondinau arddangos ac arddangosfeydd ein trefn arferol yw sicrhau bod siaradwyr Cymraeg rhugl yn mynychu, yn ôl y galw.

5.2 Cyhoeddiadau

- 5.2.1 Byddwn yn cyhoeddi deunydd perthnasol ar ffurf ddwyieithog, gyda'r fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd mewn un ddogfen.
- 5.2.2 Os bydd rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, pan fyddai un ddogfen yn rhy faith neu'n rhy swmpus), ein trefn arferol yw sicrhau bod y ddau fersiwn o'r un maint ac ansawdd a'u bod ar gael ar yr un adeg ac yn gydradd o ran hygyrchedd. Bydd y ddau fersiwn yn nodi'n glir bod y deunydd ar gael yn yr iaith arall.
- 5.2.3 Bydd yr uchod yn gymwys i ddeunyddiau a fydd ar gael ar ffurf electronig ar ein gwefan, ar CD ROM neu ffurf arall, pan yn ymarferol.
- 5.2.4 Byddwn yn cytuno ar feini prawf gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg, i bennu trwy ddull gwrthrychol pryd ddylai deunydd gael ei gyhoeddi ar ffurf dogfennau ar wahân yn Gymraeg ac yn Saesneg neu'n ddwyieithog

5.3 Gwefannau

- 5.3.1 Bydd ein gwefannau yn cynnwys tudalennau yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd adran Gymraeg gwefan CThEM yn gopi union o'r tudalennau Saesneg.
- 5.3.2 Byddwn yn darparu fersiynau Cymraeg o'r tudalennau rhyngweithiol ar ein gwefannau, pan fo hynny'n bosibl.
- 5.3.3 Pan fyddwn yn dylunio ein gwefannau neu'n ailddatblygu ein gwefannau presennol, byddwn yn ystyried canllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar ddylunio gwefannau.
- 5.3.4 Pryd bynnag y byddwn yn gosod cyhoeddiadau Saesneg ar ein gwefannau, gosodir y fersiynau Cymraeg ar yr un pryd, os ydynt ar gael.

5.4 Ffurflenni a deunydd esboniadol cysylltiol

- 5.4.1 Ein bwriad yw sicrhau bod pob ffurflen a deunydd esboniadol sy'n cael ei ddefnyddio gan y cyhoedd yng Nghymru yn hollol ddwyieithog. Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg gyda'i gilydd yn yr un ddogfen.

- 5.4.2 Os bydd rhaid cyhoeddi'r fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân (er enghraifft, pan fyddai un ddogfen yn rhy faith neu'n rhy swmpus), bydd y ddau fersiwn o'r un maint ac ansawdd – ein trefn arferol yw sicrhau bod y ddau fersiwn ar gael ar yr un adeg ac yn gydradd o ran hygyrchedd.
- 5.4.3 Pan fyddwn yn nodi gwybodaeth, megis cyfeiriad cwsmer, ar fersiynau Cymraeg o ffurflenni a anfonir at y cwsmer, byddwn yn gwneud hynny yn Gymraeg.
- 5.4.4 Pan fydd sefydliadau eraill yn dosbarthu ffurflenni ar ein rhan, byddwn yn sicrhau eu bod yn gwneud hynny yn unol â'r uchod.
- 5.4.5 Byddwn yn cytuno ar feini prawf â'r Bwrdd Iaith Gymraeg, i bennu trwy ddull gwrthrychol pryd ddylai deunydd gael ei gyhoeddi ar ffurf dogfennau ar wahân yn Gymraeg ac yn Saesneg neu'n ddwyieithog.

5.5 Hunaniaeth gorfforaethol yng Nghymru

- 5.5.1 Bydd CThEM yn mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog yng Nghymru. Bydd ein henw, manylion cyswllt, logo, sloganau a gwybodaeth safonol arall yn ymddangos yn Gymraeg ac yn Saesneg ar yr holl ddeunydd sy'n dangos ein hunaniaeth gorfforaethol.

5.6 Arwyddion yng Nghymru

- 5.6.1 Bydd holl arwyddion dros dro a pharhaol CThEM yn rhai dwyieithog gyda'r testun Cymraeg a Saesneg yn cael eu trin yn gydradd o ran maint, eglurder ac amlygrwydd.
- 5.6.2 Os darperir arwyddion Cymraeg a Saesneg ar wahân, byddant yn gydradd o ran ffurf, maint, ansawdd ac amlygrwydd.

5.7 Hysbysiadau swyddogol, cyhoeddiadau a hysbysiadau recriwtio staff

- 5.7.1 Cyhoeddir hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus a hysbysiadau recriwtio staff a osodir mewn papurau newydd (neu gyfrwng tebyg) Saesneg eu hiaith a ddosberthir yn bennaf neu'n gyfan gwbl yng Nghymru, yn ddwyieithog neu byddant yn ymddangos mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Bydd hysbysiadau a osodir mewn cyhoeddiadau Cymraeg yn Gymraeg yn unig.
- 5.7.2 Bydd y fersiynau Cymraeg a Saesneg yn gydradd o ran ffurf, maint, ansawdd ac amlygrwydd - p'un a gânt eu cynhyrchu fel un fersiwn dwyieithog, neu hysbysiadau yn Gymraeg a Saesneg ar wahân.
- 5.7.3 Caiff swyddi a hysbysebiri yn y cyfryngau Saesneg pan fo'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, eu hysbysebu yn Gymraeg yn unig gyda disgrifiad byr yn Saesneg.

5.7.4 Gellir gosod hysbysiadau recriwtio mewn cylchgronau (a chyhoeddiadau eraill) Saesneg eu hiaith, gyda dosbarthiad ledled y Deyrnas Unedig, yn Saesneg, oni fydd y swydd yn un lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol. Yn yr achos hwnnw gall yr hysbysiad fod yn gwbl ddwyieithog neu yn Gymraeg gydag esboniad byr yn Saesneg.

5.7.5 Bydd hysbysiadau swyddogol, hysbysiadau cyhoeddus neu hysbysiadau recriwtio staff a osodir mewn manau eraill yng Nghymru yn ddwyieithog.

5.8 Datganiadau i'r wasg a chysylltiadau â'r cyfryngau

5.8.1 Cyhoeddir datganiadau i'r wasg a'r cyfryngau darlledu Cymraeg eu hiaith yng Nghymru yn Gymraeg a Saesneg pan fydd terfynau amser yn caniatáu.

5.8.2 Pan fydd modd, byddwn yn sicrhau bod siaradwyr Cymraeg ar gael i gynnal cyfweiliadau gyda'r wasg Gymraeg a'r cyfryngau darlledu.

6. Gweithredu'r cynllun

6.1 Staffio a Recriwtio

6.1.1 Bydd CThEM yn monitro'r recriwtio a gosod o staff sy'n medru Cymraeg a chymryd y camau perthnasol drwy ein proses recriwtio i gynnal darpariaeth o'n gwasanaeth Cymraeg.

6.1.2 Pan ystyrir rhuglder yn y Gymraeg i fod yn ddymunol neu'n hanfodol fe nodir hyn yn y cymwysterau a hysbysebion y swydd

6.2 Hyfforddiant Iaith

6.2.1 Byddwn yn datblygu gallu ein staff sy'n medru'r Gymraeg i weithredu yn Gymraeg trwy roi hyfforddiant galwedigaethol yn Gymraeg, pryd bynnag y bydd hynny'n ymarferol.

6.3 Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu

6.3.1 Pan fo hynny'n ymarferol bydd yr angen i ddarparu gwybodaeth a gwasanaethau yn y Gymraeg yn cael ei ystyried wrth i ni ddatblygu, dylunio a phrynu cynnyrch a gwasanaethau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu.

6.3.2 Pryd bynnag y bydd hynny'n bosibl, byddwn yn addasu ein systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu presennol i sicrhau eu bod yn gallu darparu gwybodaeth a gwasanaethau yn Gymraeg – a gweithredu yn unol â'r cynllun hwn.

6.3.3 Fel yr ydym yn datblygu a meddiannu systemau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu byddwn yn cymryd i mewn i ystriaeth Safonau a Chanllawiau Meddalwedd Dwyieithog Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

6.4 Trefniadau mewnol

- 6.4.1 Rhoddir cyhoeddusrwydd am y cynllun i'n staff ac i'r cyhoedd yng Nghymru. Caiff y cynllun ei gyhoeddi ar ein gwefan mewn man amlwg.
- 6.4.2 Derbynia staff sy'n gweithio mewn rhannau sy'n debygol o gael eu heffeithio arweiniad manwl ar ddelio ag ymholiadau yn Gymraeg a goblygiadau eraill y cynllun.
- 6.4.3 Bydd unrhyw fath o gysylltiad gyda'r cyhoedd yng Nghymru, nad yw'n cael ei ddelio gyda'n uniongyrchol gan y cynllun hwn, yn cael ei ddelio gyda mewn ffordd sy'n gyson ag egwyddorion y cynllun hwn.

6.5 Monitro

- 6.5.1 Byddwn yn penodi uwch aelod o'n staff i gydlynu'r gwaith sydd ei angen i gyflawni, monitro ac adolygu'r cynllun hwn.
- 6.5.2 Byddwn yn monitro a gwerthuso darpariaeth ein gwasanaeth Cymraeg yn erbyn yr ymrwymïadau a wnaethpwyd yn y cynllun hwn yn rheolaidd ac ystyried gweithredu pan fo'n addas, mewn ymgynghoriad â'r Bwrdd.
- 6.5.3 Byddwn yn cytuno system o adroddiadau monitro a cynllyn gweithredu gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg yn amlinellu'r cynnydd a wnaed i gyflawni'r cynllun hwn.

6.6 Adolygu a diwygio'r cynllun

- 6.6.1 Byddwn yn adolygu'r cynllun hwn o fewn pedair blynedd o'r dyddiad y daw i rym.
- 6.6.2 Hefyd, gallai fod angen i ni adolygu'r cynllun hwn o dro i dro, neu gynnig newidiadau i'r cynllun hwn, oherwydd newidiadau yn ein swyddogaethau, neu newidiadau i'r amgylchiadau y byddwn yn cyflawni'r swyddogaethau hynny, neu am unrhyw reswm arall.
- 6.6.3 Ni ddiwygir y cynllun hwn heb gytuno gyda Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

6.7 Cwynion ac awgrymiadau ar gyfer gwella

- 6.7.1 Dylid cyfeirio cwynion mewn perthynas â'r cynllun hwn, neu awgrymiadau ar gyfer ei wella at yr uwch aelod staff sydd â chyfrifoldeb am y cynllun yn y cyfeiriad isod:

Cydlynnydd y Cynllun Iaith Gymraeg
Cyllid a Thollau EM
12^{fed} Llawr, Rhan 2
Adeiladau'r Llywodraeth, Tŷ Glas
Llanisien
Caerdydd CF14 5TS

029 2032 6636